OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 No. 3256

# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodol) (Cymru) 2006

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodol) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 26 Rhagfyr 2006.

### Diwygiadau i Reoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006(**1**) yn unol â pharagraffau (2) i (4).

(2) Yn Rhan B o Atodlen 4 (cyfyngiadau ar amrywiad), ar ôl y cofnodion sy'n ywmneud â methionin mewnosoder y cyfnodion ar gyfer lleithedd fel a nodir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

(3) O ran y tabl ym Mhennod A o Atodlen 5 (cyfyngiadau rhagnodedig ar gyfer sylweddau annymunol)—

(a) yn lle'r cofnodion yn y tabl hwnnw sy'n ymwneud â chadmiwm, deuocsin, flworin a phlwm yn eu trefn rhodder y cofnodion ar gyfer y sylweddau hynny fel a osodir yn y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn;

(b) ar ôl y cofnodion ar gyfer deuocsin mewnosoder y cofnodion ar gyfer y swm o ddeuocsinau a PCBs o fath deuocsin fel a nodir yn y tabl yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, ac

(c) yn droednodiadau i'r tabl hwnnw ychwaneger y troednodiadau i'r tabl yn Rhan 1 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

(4) O ran y tabl ym Mhennod D o Atodlen 5 —

(a) yn lle'r cofnodion yn y tabl hwnnw sy'n ymwneud â chamffeclor (tocsaffen) rhodder y cofnodion fel a osodir yn y tabl yn Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn; a

(b) yn droednodyn i'r tabl hwnnw ychwaneger y troednodyn i'r tabl yn Rhan 2 o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn.

### Diwygiadau i Reoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

**3.**—(1) Diwygir Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005(**2**) yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Ar ôl rheoliad 24, mewnosoder y rheoliad canlynol—

> "**24A.**—(1) At ddibenion cyflawni ymchwiliadau, yn unol ag Erthygl 4.2 o Gyfarwyddeb 2002/32, er mwyn penderfynu ffynhonnell y sylweddau annymunol hynny a restrir yn Atodiad II i'r Gyfarwyddeb honno pan fydd trothwyon gweithredu a bennir yn yr Atodiad hwnnw wedi cael eu cyrraedd, caiff swyddog awdurdodedig, ar bob adeg resymol ac wrth ddangos, os gofynnir amdani, ddogfen a ddilyswyd yn briodol sy'n dangos ei awdurdod,

(**1**) O.S. 2006/116 (Cy.14), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/617 (Cy.69) ac O.S. 2006/2928. (Cy.263).
(**2**) O.S. 2005/3368 (Cy.265).

fynd i mewn i unrhyw fangre (nad yw'n fangre a ddefnyddir fel annedd yn unig) lle mae gan y swyddog achos rhesymol dros gredu bod bwyd anifeiliaid yn cael neu wedi cael ei weithgynhyrchu neu ei gynhyrchu, wedi'i roi ar y farchnad neu'n cael ei gadw er mwyn ei roi ar y farchnad, ei gynnwys mewn unrhyw gynnyrch arall neu ei ddefnyddio.

(2) Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn —

(a) mynd â'r personau eraill hynny gydag ef y mae'r swyddog yn tybio eu bod yn angenrheidiol ac unrhyw gyfarpar;

(b) arolygu unrhyw beth y mae gan y swyddog hawl i'w arolygu o dan reoliad 24(5), ac

(c) cymryd sampl yn y fangre honno o unrhyw ddeunydd y mae'n ymddangos i'r swyddog sy'n fwyd anifeiliaid a weithgynhyrchwyd, a gynhyrchwyd, a roddwyd ar y farchnad neu y bwriedir ei roi ar y farchnad neu sy'n ddeunydd a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid.

(3) Os bydd swyddog awdurdodedig er mwyn cymryd sampl yn unol â pharagraff (2)(c) yn cymryd deunydd o un cynhwysydd neu fwy ohonynt y mae pob un ohonynt yn pwyso dim mwy na chwe chilogram, ac sydd wedi cael eu datgelu i'w gwerthu drwy fanwerthu, caiff perchennog y cynhwysydd neu'r cynwysyddion ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog awdurdodedig brynu'r cynhwysydd neu'r cynwysyddion ar ran yr awdurdod y mae'r swyddog yn gweithio iddo.

(4) Mae gan swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre yn rhinwedd y rheoliad hwn yr un hawliau i gael gweld, arolygu a chopïo cofnodion, gan gynnwys cofnodion a gedwir ar gyfrifiadur neu a gynhyrchir ganddo, fel a bennir ym mharagraff (9)(a) a (b) a (10)(c) o reoliad 24.

(5) Mae paragraff (14) o reoliad 24 yn gymwys i'r pwer mynediad o dan y rheoliad hwn fel y mae'n gymwys i'r cyfryw bwerau o dan y rheoliad hwnnw.

(6) Ystyr Cyfarwyddeb 2002/32 yw Cyfarwyddeb 2002/32/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) ar sylweddau annymunol mewn bwyd aneifiliaid, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2003/57/EC(**4**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2003/100(**5**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/8/EC(**6**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/86/EC(**7**), Cyfarwyddeb y Comisiwn 2005/87/EC(**8**) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 2006/13/EC(**9**).”

(1) Ym mharagraff (4) o reoliad 27, ar ôl yr ymadrodd “reoliad 24” mewnosoder “neu reoliad 24A”.

(**3**) OJ Rhif L140, 30.5.2002, t.10.
(**4**) OJ Rhif L151, 19.6.2003, t.38.
(**5**) OJ Rhif L285, 1.11.2003, t.33.
(**6**) OJ Rhif L27, 29.1.2005, t.44.
(**7**) OJ Rhif L318, 6.12.2005, t.16.
(**8**) OJ Rhif L318, 6.12.2005, t.19.
(**9**) OJ Rhif L32, 4.2.2006, t.44. Cyflwynodd y Gyfarwyddeb ddiwygio hon drothwyon gweithredu a'r gofyniad i ymchwilio.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**10**)

*D. Elis-Thomas*

5 Rhagfyr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**10**) 1998 p.38.